# Eli Diflannu

Roderick Hunt Alex Brychta


Coeden Ddarllen Rhydychen




DRAKE




Roedd y plant yn yr ysgol.
Gwnaethon nhw theatr fach.
Gwnaethon nhw hi allan o focs.




Perfformiodd y plant ddrama.
Drama am ddewin oedd hi.



Dewin Swel oedd ei enw.
Roedd Dewin Swel yn gwneud camgymeriadau.



Gwnaeth Dewin Swel swyn.
Aeth y swyn o chwith.
'O diar! O diar!' meddai Dewin Swel.




Chwarddodd pawb.
Roedd pawb yn hoffi'r ddrama.
Roedd Mrs Jones yn hoffi Dewin Swel.





Roedd Cad yn ei hystafell.
Dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.
'Dids! Dids!' galwodd Cad.






Rhedodd Dids i ystafell wely Cad.
Aeth yr hud â nhw i mewn i'r tŷ bychan.




Aeth yr hud â nhw
at dŷ Dewin Swel.
Roedd y dewin eisiau help.



‘Dowch i mewn,’ meddai’r dewin.
‘Un roeddwn i eisiau i helpu,
ond gwnaiff dau y tro.’




'Dowch i mewn,' meddai'r dewin.
'Cewch chi olchi'r llestri,
wedyn cewch chi dacluso.'



Edrychodd Cad a Dids ar y llanast.
'Peidiwch â bod yn ddiog,' meddai'r dewin,
'neu byddaf yn eich troi'n llyffantod.'




Golchodd Cad a Dids y llestri.
'Dydw i ddim yn hoffi hyn,' meddai Dids,
'ond dydw i ddim eisiau bod yn llyffant.'





'Dydw i ddim yn hoffi smwddio,' meddai Cad,
'ond dydyn ni ddim eisiau bod yn llyffantod.'




O na! Gollyngodd Cad botel.

Eli diflannu oedd o.






'Help!' meddai Cad.

'Eli diflannu ydi hwn.'




Edrychodd Dids ar ei ddwylo.

'O na!' meddai.

'Mae darnau ohonon ni'n diflannu.'







Rhwbiodd ei wyneb.


'O na!' meddai Cad.

'Mae dy wyneb di'n diflannu.'




Daeth dyn i'r tŷ.
Dringodd i mewn drwy'r ffenestr.






Welodd y dyn mo Cad a Dids.
Cymerodd ddisgiau cyfrifiadur y dewin
i gyd.



‘Help! Help!’ meddai’r dyn.
‘Mae’r golch yn ymosod arna i.’





Daeth Dewin Swel yn ôl.
Dywedodd Cad hanes
yr eli diflannu wrtho.



Rhoddodd Dids y disgiau cyfrifiadur
i Dewin Swel.
Roedd y dewin yn falch.





Roedd hi'n amser mynd adref.
'Diolch,' meddai Dewin Swel.
'Dowch yma eto.'



Roedd gan Cad botel fechan.

‘Paid â’i gollwng hi,’ meddai Dids.

‘Eli diflannu ydi o.’



Argraffwyd yng Nghymru

# Eli Diflannu

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 5
Rhagor o
Storïau
Pecyn A

Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Storïau yng Ngham 5:**

**Storïau boncyff**

1 Yr Allwedd Hud
2 Antur gyda'r Môr-ladron
3 Coeden y Ddraig
4 Nain
5 Antur yn y Castell
6 Y Pentref yn yr Eira

**Rhagor o Storïau Pecyn A**

**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Y Peth'ma
Antur dan y Ddaear
Eli Diflannu
Dydi o Ddim yn Deg!
Y Ras Fawr
Anghenfil o Jôc

ISBN 0-86174-161-7

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999

ISBN 0 86 174161 7

DRAKE

9 780861 741618